**Memorandwm Esboniadol i Orchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

## Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) 2023.

Vaughan Gething
Gweinidog yr Economi
20 Tachwedd 2023

## 1. Disgrifiad

Mae Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) 2023 yn addasu Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru (yr “SASW”) y rhoddwyd effaith iddi yn wreiddiol ym mis Mai 2013 gan Orchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) 2013, ac a addaswyd wedyn yn 2016 gan Orchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) 2016.

Mae’r SASW yn pennu’r gofynion y mae rhaid eu bodloni er mwyn i fframweithiau prentisiaethau Cymreig cydnabyddedig gael eu cyhoeddi o dan adran 19(1) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (“Deddf 2009”). Rhaid i bob fframwaith prentisiaeth fodloni'r gofynion a bennir yn yr SASW addasedig i fod yn fframwaith cydnabyddedig Cymreig a gyhoeddir o dan adran 19(1) o Ddeddf 2009. Daw'r SASW addasedig i rym ar 11 Rhagfyr 2023.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

Gwneir y Gorchymyn gan ddefnyddio'r pŵer a roddir i Weinidogion Cymru gan adran 29(1) o Ddeddf 2009.

Yn unol ag adran 29(2) o Ddeddf 2009, mae Gweinidogion Cymru wedi’u bodloni bod yr SASW fel y'i diwygiwyd drwy'r Gorchymyn hwn yn cydymffurfio ag adran 31 o Ddeddf 2009. Mae'r Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi effaith i addasiadau i'r SASW.

Mae'r SASW yn nodi’r gofynion sylfaenol i’w cynnwys mewn fframwaith prentisiaeth cydnabyddedig yng Nghymru. Mae Deddf 2009 yn cynnwys gofyniad statudol bod awdurdodau cyhoeddi yng Nghymru yn cydymffurfio â'r SASW pan fyddant yn ystyried a ddylid cyhoeddi fframwaith prentisiaethau.

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi effaith i addasiadau er mwyn:

- Cynnwys cynnig mwy cynhwysol ar gyfer pobl ag anawsterau ac anableddau dysgu er mwyn ehangu cyfranogiad, gan agor y gofynion mynediad o ran sgiliau hanfodol ar gyfer lefelau 2 a 3.

- Caniatáu cymwysterau "procsi" ychwanegol fel dewis amgen cydnabyddedig yn lle Sgiliau Hanfodol fel y'u manylir o dan bob lefel fframwaith prentisiaeth.

- Cynnwys adran newydd ar brentisiaethau gradd a phroffesiynol (lefelau 6 a 7), sy'n dileu'r gofynion o ran sgiliau hanfodol ar gyfer prentisiaethau ar y lefel hon.

- Gwneud newidiadau eraill hefyd, er enghraifft eithrio sgiliau hanfodol yn y credydau rhwng cymwysterau cymwyseddau galwedigaethol a chymwysterau gwybodaeth dechnegol berthnasol a newidiadau i'r fformatio/rhifau colofnau.

Mae canllawiau diwygiedig wedi'u cyhoeddi a rhaid i'r Awdurdod Cyhoeddi Cymreig roi sylw i'r canllawiau hyn wrth wneud penderfyniad ynghylch a yw fframwaith yn cydymffurfio â'r SASW.

Bydd fersiwn o'r SASW sy'n cynnwys yr addasiadau yn y Gorchymyn hwn o'r enw "Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru" yn cael ei chyhoeddi gan Weinidogion Cymru ar wefan Llywodraeth Cymru.

## 5. Ymgynghori

Gan nad oes unrhyw newid i bolisi, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus. Unig bwrpas yr orchymyn yw galluogi i'r ddeddfwriaeth gyfredol gael ei diweddaru i gyflawni ymrwymiadau'r polisi prentisiaethau, lle mae ymgynghoriadau technegol a chyhoeddus wedi'u cynnal.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Nid oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan fod yr offeryn statudol hwn yn ymwneud â diwygiadau technegol a ffeithiol i ddiweddaru'r rheoliadau i gyflawni'r ymrwymiadau polisi presennol. Nid oes unrhyw bolisïau newydd yn cael eu gweithredu.